OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 392 (Cy.41)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Chwefror 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Chwefror 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Mawrth 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion gwneud Rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth a nodir yn yr Atodlen gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth honno fel y'i diwygir o dro i dro.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

(**1**) O.S. 2005/2766. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).